

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 31 Ionawr 2013

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Bethan Davies
Clerc y Pwyllgor
02920 898120
pwylgor.CCLl@cymru.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
2. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1): Sesiwn Dystiolaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru (9:30–10:15) (Tudalennau 1 – 7)
 - Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol
 - Martin Peters, Rheolwr Cydymffurfio
3. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1): Sesiwn Dystiolaeth gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (10:15–11:00) (Tudalennau 8 – 10)
 - Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 - Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Ymchwiliadau a Chynghorydd Cyfreithiol
4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (11:00–11:00)
5. Ymchwiliad i Bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol: y prif faterion (11:00–11:30) (Tudalennau 11 – 59)
6. Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): Trafodaeth bellach ar y dystiolaeth (11:30–12:00)

7. Papurau i'w nodi (Tudalennau 60 – 61)

Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): Llythyr gan Peter Black AC (Tudalennau 62 – 63)

Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): Y Confensiwn Hawliau Dynol (Tudalennau 64 – 68)

Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Tudalennau 69 – 70)

Eitem 2

Atodiad 1

Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y **Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)**.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y ffurflen hon at Gynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn 31 Ionawr 2013. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8120, neu â Leanne Hatcher, y Dirprwy Clerc, ar 029 2089 8147.

Dylid anfon ymatebion i:

Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

Neu drwy'r post:
Leanne Hatcher
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Eich enw: Martin Peters

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Swyddfa Archwilio Cymru

Cyfeiriad e-bost: martin.peters@wao.gov.uk

Rhif Ffôn: 02920 320 526

Eich cyfeiriad: 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol

Cwestiwn 1: A oes angen Bil i wneud newidiadau i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") ac i wneud amrywiol ddarpariaethau mewn perthynas â llywodraeth leol?

Oes

Nac oes

Ymhelaethwch ar eich ateb

Un o'r prif resymau pam fod angen deddfwriaeth yw oherwydd, o dan y deddfwriaeth presennol, fod rhaid i'r Comisiwn gwblhau adolygiadau o fewn amserlen afresymol o drwm ac o fewn y cyfyngiad annefnyddiol o beidio gallu newid ffiniau cymunedau. Tra y gellir mynd i'r afael â mater yr amserlen drwy orchmynion gan Weinidog o dan Ddeddf 1972, ni fyddai'r gorchmynion yn delio â'r broblem o ran ffiniau cymunedau. Mewn unrhyw achos, gall dibynadwyedd ar orchmynion gan Weinidog fod yn annymunol o safbwynt hyder cyhoeddus yng ngwaith y Comisiwn.

Rydym hefyd yn ystyried fod deddfwriaeth newydd yn ffordd rhesymol o gyflymu darpariaeth mynediad electronig at wybodaeth cynghorau cymuned i'r fath raddau fel y gellir sicrhau hyn o fewn amserlen gymharol fer (tua 2 flynedd). Mae hwn yn briodol, gan fod diffyg cyfathrebu electronig â'r cyhoedd ymysg nifer sylweddol o gynghorau cymuned.

Cwestiwn 2: A ydych o'r farn y bydd y Bil yn gwella'r dull o gyflawni rolau a swyddogaethau statudol y Comisiwn? (paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol)

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Er mwyn caniatáu cylched barhaus o adolygu, dylai'r Bil helpu'r Comisiwn i sicrhau dull mwy cyson a chynaliadwy o weithio. Dylai'r Bil hefyd helpu drwy gefnogi gweithdrefnau ymgynghori gwell o ran cynigion adolygu ffiniau.

Cwestiwn 3: A ydych o'r farn bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Comisiwn yn briodol? (Rhan 2 y Bil)

Ydw

Nac ydw

Yn gyffredinol, ydw. Dylai codi'r cworwm i dri helpu i sicrhau safon dda o ran gwneud penderfyniadau. Ond er mwyn helpu i sicrhau fod y Comisiwn yn cael ei weinyddu'n gyson, efallai y byddai'n well pe bai'r Prif Weithredwr yn cael ei benodi gan y Comisiwn yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

Trefniadau Llywodraeth Leol

Cwestiwn 4: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol yn briodol? (Pennod 4 a 5)

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Yn gyffredinol, ydw. Mae'n ymddangos yn briodol fod y darpariaethau ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol yn nodi fod angen i'r Comisiwn ymgynghori ar y weithdrefn arfaethedig a dull yr adolygiad, yn arbennig o ran sut i bennu nifer priodol aelodau'r cynghorau. Dylai, fodd bynnag, fod o gymorth o ran tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd os oedd rhaid i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi ei weithdrefnau a dulliau arfaethedig yn electronig (ac mewn cyfryngau eraill ar gais).

Mae hi hefyd yn ymddangos yn briodol fod rheidrydd ar gyrff sy'n adolygu i ymgynghori ar gynigion drafft ar gyfer yr ardal sydd yn cael ei adolygu, yn cynnwys eu cyhoeddi yn electronig.

Dylai fod o gymorth i dryloywder ac ymddiriedaeth a hyder cyhoeddus os oedd darpariaeth ychwanegol yn y Bil, yn nodi fod rhaid i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn, wrth dderbyn adroddiadau (fel y gallai'r achos fod) i gyhoeddi rhesymau dros beidio rhoi argymhellion mewn lle, neu eu gweithredu ag addasiadau.

Cwestiwn 5: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:

- Dyletswyddau'r Comisiwn
- Dyletswyddau prif gynghorau

yn briodol? (Pennod 1)

Ydw

Nac ydw

Ymhelaethwch ar eich ateb

Ar y cyfan, ydw, ond ynghyd â cheisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, byddai'r briodol i'r Comisiwn a'r prif gynghorau fod yn ymwybodol o'r angen am economi ac effeithlonedd o fewn llywodraeth leol. Byddai darpariaeth ychwanegol o'r fath yn diogelu'r Comisiwn a'r cynghorau rhag gwneud cynigion sydd yn effeithiol a chyfleus, ond sydd yn ddiangen o ddrud. Rydym o'r farn fod ystyriaeth o'r fath yn debygol o fod ar y gweill, ond gall darpariaeth pendant fod yn amddiffynfa ychwanegol ddefnyddiol.

Cwestiwn 6: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:

- Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd (Adran 56)
- Pwyllgorau Archwilio (Adran 57)
- Pwyllgorau Safonau (Adran 63)

yn briodol?

Ydw



Nac ydw



Ymhelaethwch ar eich ateb

Mae'r darpariaethau o ran pwyllgorau gwasanaethau democrataidd yn ymddangos fel petaent yn fuddiol yn nhermau penderfyniad lleol o arferion gweithio er mwyn gweddu y sefyllfaoedd presennol orau.

Dylai'r eglurhad o gyfansoddiad y pwyllgorau archwilio fod o gymorth o safbwynt osgoi dadl hirfaith.

Dylai'r darpariaeth ar gyfer pwyllgorau safonau rhanbarthol fod yn ddefnyddiol o ran sicrhau argaeledd aelodau annibynnol addas, effeithlonrwydd a chysondeb dulliau gweithio.

Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol

Cwestiwn 7: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol yn briodol? (Pennod 5, Adrannau 58-62)

Ydw



Nac ydw



Ymhelaethwch ar eich ateb

Ymddengys fod y darpariaethau yn lliflinio, yn ddefnyddiol, fanyleb o derfynau cyflogau uwch-weithwyr ac wrth roi ystyriaeth i achosion penodol.

Mynediad at wybodaeth (Cyngorau Tref a Chymuned)

Cwestiwn 8: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â hwyluso mynediad at wybodaeth (Cyngorau Tref a Chymuned) yn briodol?			
Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ymhelaethwch ar eich ateb			
<p>Mae hi'n glir nad yw nifer sylweddol o gynghorau cymuned yn darparu lefel ddigonol o gyfathrebu electronig ynglŷn â'u trafodion. Byddai deddfwriaeth yn fodd realistig o gyflymu'r darpariaeth a fyddai o gymorth wrth hybu ymgysylltu â'r cyhoedd. Dylai'r cwmpas ar gyfer rhannu darpariaeth gwefan fod o gymorth i alluogi dull economaidd o gyfathrebu, er gallai fod o help pe bai darpariaethau yn gwneud hyn yn fwy eglur drwy gyfeirio ato'n bendant. Gallai rhai gasglu o deitl yr adran "gwefannau cynghorau cymuned" fod rhaid i gynghorau unigol gynnal a chadw eu gwefan eu hunain. Gall "Darpariaeth gwybodaeth yn electronig gan gynghorau cymuned" fod yn deitl gwell.</p> <p>Mae'n debyg fod yr amserlen a ragwelir (Mai 2015) yn realistig, ond gall fod yn ddefnyddiol, er eglurdeb, i roi'r dyddiad dechrau ar gyfer y darpariaethau hyn ar wyneb y Bil.</p>			

Cadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau)

Cwestiwn 9: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Chadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau) yn briodol?			
Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
Ymhelaethwch ar eich ateb			
<p>Mae'n ymddangos fod y darpariaethau yn cwrdd â'u hamcan o ganiatáu gwahanu'r swyddogaethau seremonïol oddi wrth lywyddu cyfarfodydd, sydd yn ei hun yn ymddangos yn rhesymol.</p>			

Darpariaethau Cyffredinol y Bil

Cwestiwn 10: Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

Ymhelaethwch ar eich ateb

Rydym o'r farn mai'r prif rwystr i roi hyn ar waith fydd o ran mynediad electronig gan gynghorau cymuned. Mae'r nodiadau eglurhad yn nodi, yn ddefnyddiol, y bydd y darpariaethau hyn (adrannau 53 a 54) yn dechrau ym mis Mai 2015, a ddylai ganiatáu amser digonol i'r cynghorau cymuned wneud trefniadau, ond nid yw hyn ar wyneb y Bil.

Mae swm sylweddol o glercod cyngor yn debygol o fod angen rhyw fath o hyfforddiant neu gymorth er mwyn sicrhau eu bod yn medru darparu deunyddiau yn electronig, hyd yn oed os ydyn nhw am gael gwefan wedi ei ddarparu gan berson arall. Mae hi hefyd yn bosib y byddai peth inertia diwylliannol i'w oroesi, yn cynnwys pryderon cynghorau y bydd gormod o ymholiadau yn cael eu hanfon atynt ar ebost. Gallai arweiniad gan y Llywodraeth fod yn ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r materion hynny, ac yn arbennig i gynnwys dulliau o ran sicrhau digon o ddarpariaeth i ddelio â chyfatebiaeth annifyr.

Gallai'r costau posib sy'n gysylltiedig â darparu mynediad arlein i ddogfennau hefyd fod yn broblem i gynghorau bychan. Mae oddeutu 22% o gynghorau cymuned yn gwario llai na £5,000 y flwyddyn, a 19% arall yn gwario rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn. Gallai cost ychwanegol o £1,000 y flwyddyn gael ei weld fel cost ychwanegol sylweddol i'r cynghorau hyn.

Cwestiwn 11: Beth yw goblygiadau ariannol y Bil, os ydynt yn bodoli? Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Aseiad Effaith) sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

Ymhelaethwch ar eich ateb

Mae goblygiadau ariannol y Bil yn ymddangos fel petaent, yn gyffredinol, wedi eu hasesu yn rhesymol yn y memorandwm esboniadol. Nid ydym yn credu, fodd bynnag, ei bod hi'n debygol y byddai rhoi rheidrwydd ar gynghorau cymuned i ddarparu gwybodaeth yn electronig yn arwain at arbedion wrth gael gwared ar yr angen am bapurau a chopïau caled. Bydd dal angen am rybuddion papur a chofnodion ayyb. Mae hi hefyd yn debygol y byddai peth cost ychwanegol yn deillio o'r cynnydd yn y lefelau o ymgysylltu gan y cyhoedd, megis amser y clerwr wrth ddelio ag ymholiadau ebost.

Gwelwn werth o adolygiad ehangach yn dilyn rhoi'r darpariaethau mewn lle. Er enghraifft, mewn perthynas â mynediad cynghorau cymuned i ddarpariaethau gwybodaeth, gellir adnabod gwersi defnyddiol ar gydweithredu ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gynnal astudiaeth werthuso o drefniadau mynediad cynghorau cymuned, yn cynnwys asesu caffael a'r effaith ar y cyhoedd. Rydym yn amcangyfrif y byddai astudiaeth werthuso o'r fath yn costio tua £50,000, ond y gallai arwain at rai arbedion o ganlyniad i wersi caffael a gwasanaethau gwell.

Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion) (adran 5 y Memorandwm Esboniadol)?

Ymhelaethwch ar eich ateb

Maen nhw'n ymddangos yn briodol.

Cwestiwn 13: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?

Mae'r darpariaethau ariannol ar gyfer y Comisiwn, yn cynnwys ar gyfer cyfrifon ac archwilio, (cymalau 15 i 20) yn briodol.

**Evidence of the Public Services Ombudsman for Wales
to the National Assembly for Wales's Communities, Equality and
Local Government Committee
on the Local Government (Democracy) (Wales) Bill**

1. Introduction

- 1.1 I pleased to have the opportunity to provide evidence in respect of the Communities, Equality and Local Committee's scrutiny of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill.
- 1.2 As Public Services Ombudsman for Wales, I have two roles. The first is to investigate complaints made by members of the public who believe they have suffered hardship or injustice through maladministration or service failure on the part of a body in my jurisdiction. The second is to consider complaints alleging that members of local authorities have broken their Code of Conduct. My comments are based on my experience in both of these roles.

2. The Local Government Boundary Commission

- 2.1 The current Local Government Boundary Commission for Wales is outside of the jurisdiction of the Public Services Ombudsman for Wales. This has previously been identified as something of an anomaly. I am pleased therefore that the Bill brings the Commission in its new form of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales within the Ombudsman's jurisdiction. This means that the Ombudsman will in future be able to accept for consideration complaints about maladministration or service failure by this public body.

3. Other Changes to Local Government

- 3.1 **Access to Information** – I welcome the elements of the Bill that require community councils to make available electronically information on how to contact the council to the public. Community councils come within the jurisdiction of my office. Finding up to date contact details and information about the 730 or so town and community councils in Wales is not always easy. It also presents difficulties when seeking to signpost members of the public making enquiries about these authorities to the right place. A website presence of some form is important in today's world. Whilst I understand that some town and community councils are small and have limited resource, there are possibilities that other organisations, such as principal authorities, could host these on their behalf. However, they would need to do so in a way that would enable the relevant web pages to be returned prominently in any results from an internet search engine.

3.2 Joint Standards Committees –

3.2.1 In my role of considering complaints alleging that members of local authorities have broken their Code of Conduct I have on a number of occasions expressed my concern about certain aspects of the current local government ethical framework. The proposal in relation to joint standards committees will at least address some of those concerns.

3.2.2 By way of background information, outcomes of cases which I have referred to standards committees over recent years are as follows:

Year	No. of referrals	Outcome and Sanction applied by Standards Committee (if any)
2012/13 to date	12	Breach x 3: <ul style="list-style-type: none"> • 3 month suspension x 1 • 28 day suspension x 1 • Censure x 1 (9 cases yet to be heard)
2011/12	15	Breach x 14: <ul style="list-style-type: none"> • 6 month suspension x 1 • 18 week suspension x 1 • Censure x 8 • No action x 4 (1 case yet to be heard)
2010/11	16	Breach x 14: <ul style="list-style-type: none"> • 6 month suspension x 1 • 3 month suspension x 1 • 2 month suspension x 1 • 1 month suspension x 1 • 28 day suspension x 1 • Censure & training x 1 • Censure x 5 • No action x 3 No evidence of breach x 1 No case to answer x 1

3.2.3 Some of the problems that I as Ombudsman have witnessed in relation to the current standards committee arrangements are:

- (a) Standards committees sometimes face problems in forming suitably ‘independent’ committees. For example, sometimes the whole council has been involved in the matter complained about. This occurred in a recent complaint I investigated which concerned remarks which had been made during a council meeting and the members who were present at the meeting were witnesses who had been contacted by my investigator during the investigation. I consider that the rules of natural justice dictate that it would not be appropriate for those members who witnessed the events and who are also members of the council’s standards committee to play any part in any subsequent hearing of the matter. One member who was a witness in the recent case was extremely unhappy about this and whilst he eventually heeded his Monitoring Officer’s advice to play no part in the hearing had he not done so the hearing might have been prejudiced.

- (b) Some local authority standards committees are rarely called to consider code of conduct complaints. This leads to a position where members are insufficiently au fait with procedures and that lack of familiarity can lead for example to lenient sanctions in what I consider to be serious breaches of the Code. A couple of case examples to illustrate this point are:

A member of a community council attended meetings of his council and of the relevant national park authority concerning the draft Local Development Plan (LDP), despite having both a personal and prejudicial interest in the matter because he had submitted land in his ownership to be included in the LDP. He should therefore have declared his interest and taken no part in any discussions concerning the draft LDP. I considered the breaches of the code to be serious and ones that would cause public concern. However, the Standards Committee took the view that no action needed to be taken against the member.

A member of a county borough council disclosed confidential information which had been revealed to her in her role as cabinet member for education relating to a fellow councillor's employment during an exchange she had with him in a council meeting. Although the cabinet member was a very experienced member and the information which was disclosed in the public arena could have affected the fellow councillor's future employment prospects the standards committee censured the member and did not impose any period of suspension.

- (c) Some authorities, such as fire authorities, have called into question the need for them to constitute standards committees so rarely do they have call to meet to discuss complaints about failure by their members to adhere to their Code of Conduct, if ever.

3.2.4 In each of these scenarios above, the proposed arrangement for joint standards committees would help to resolve the issues identified. Joint standards committees could:

- overcome the problems of conflict of interest and constituting appropriately 'independent' committees for standards hearings and issues
- build the necessary expertise so that unduly lenient sanctions of the type that currently happen do not occur in the future
- address the concerns of those authorities who feel that they are unnecessarily required to constitute a standards committee because they rarely if ever have to meet. The proposal contained in the Bill would allow such authorities to access a joint standards committee should they require it.

3.2.5 I also believe that a joint standards committee arrangement would strengthen public confidence in high standards of conduct within local democracy.

Finally, if the National Assembly for Wales's Communities, Equality and Local Government Committee would find it helpful, I would be happy to discuss further the above comments.

Public Services Ombudsman for Wales
January 2013

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013**

Amser: **09:30 – 11:41**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf>



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Ann Jones (Cadeirydd)
Peter Black
Janet Finch-Saunders
Mike Hedges
Mark Isherwood
Gwyn R Price
Ken Skates
Rhodri Glyn Thomas
Joyce Watson
Jocelyn Davies

Tystion:

Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru
Robert Robinson, Clerc y Dref, Welshpool Town Council
Mariette Roberts, Tywyn a Bae Cinmel
Stephen Brooks, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
Owain ap-Gareth, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
Darren Hughes, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)
Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)
Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, tystion a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

- 1.2 Dywedodd y Cadeirydd fod Lindsay Whittle yn ymddiheuro. Croesawodd y Pwyllgor Jocelyn Davies a oedd yn dirprwyo ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

2. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1): Sesiwn Dystiolaeth 3

- 2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Cyngorau Tref a Chynghorau Cymunedol Mwy Gogledd Cymru.

3. Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (Cyfnod 1): Sesiwn Dystiolaeth 3

- 3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru.

Eitem 7a

Letter from Peter Black AM 17 January 2013

Dear Ann,

Thank you for your letter of 16 January concerning the Minister's evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee on 14 January.

As you know I have been in discussions with Government officials about amendments to the Bill which would reduce the amount of secondary legislation. At the last meeting it was suggested that they produce amendments that would unify the 1960 licensing system with the one I proposed by importing large chunks of the 1960 Act into my bill. I agreed that this was an acceptable approach provided that key features of my bill remained.

I was therefore, shocked to see this agreement misrepresented in the CLA Committee as one that would be an English and Wales licensing system with just a fit and proper person text added on. I had never agreed to that and believe that such an approach would remove some critical aspects of my bill.

Accordingly I e-mailed the civil servant concerned to outline my concerns. In that e-mail I said:

"I would suggest we need to clarify where we are going with these amendments at another meeting as soon as possible please? To be clear, any amended Bill should still contain the following features:

1. A five year licence subject to a fee which can resource enforcement activity and which is payable again on renewal.
2. Fit and proper Person test applying to the manager of the regulated site
3. Management regulations that set out how the site should be managed and enables the licensing authority to issue management orders on the running of the site
4. Involvement of the RPT in appeals and other determinations as per section 16 and 18(4)
5. Enforcement provisions and the rights for local authorities to serve notices on site owners to carry out work and to act to undertake that work in default if necessary as well as powers of entry
6. The end to the veto on sales alongside provisions to protect the paying over of the commission and to ensure the purchaser receives information about the agreement and the site rules ahead of completion as per Schedule 1 section 4
7. Protection of the anonymity of the residents association members as set out in the current bill as per section 30 of my bill and also Schedule 1 section 9
8. A fixed penalty option for licensing authorities
9. Provisions in relation to operating an unlicensed site, including repayment orders as per sections 25 and 26 of my bill

10. Protection for residents from the passing on to them of any costs incurred as a consequence of the bill as per Schedule 1 section 6
11. That pitch fees will henceforth only be increased in line with CPI rather than RPI Schedule 1 section 7
12. Protection for the home owner in terms of the movement of their home by the site owner as per Schedule 1 section 5
13. Provision on rights of succession as per Schedule 1 section 2
14. Protection for the mobile home owner to carry out internal improvements as per Schedule 1 section 8”

I have had a response to the effect that the official concerned will review the record and get back to me. I understand also that my e-mail has been copied to a government lawyer.

My view is that whereas we can unify the two licensing regimes it is vital that the 14 provisions outlined above remain in the bill. I believe that is in line with the outcome of the consultation and also with representations made to me since I won the ballot for this bill. I also believe that these provisions will transform the Mobile Home Industry within Wales for the better and will benefit residents and site owners alike.

I hope that this is helpful. I have copied this e-mail to my team and also to the Minister and his official for information.

Yours

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Peter Black', written in a cursive style.

Peter Black AM

Eitem 7b

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Gwasanaethau Ymchwil i roi gwybodaeth a chynghor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cynghor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd parti.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers and Research Services in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Cefndir

- 1) Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (y Pwyllgor) yn ystyried y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) (y Bil) yng Nghyfnod 1 o broses ddeddfu y Cynulliad.
- 2) Mae'r Bil yn destun ystyriaeth a thrafodaethau parhaus rhwng Peter Black AC a'i dîm, a Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, a swyddogion Llywodraeth Cymru.
- 3) Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol a'i dîm wedi cadw golwg fanwl ar waith y Pwyllgor o graffu ar y Bil, ynghyd â'r holl dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a roddwyd i'r Pwyllgor hyd yma.
- 4) Wrth fwrw ymlaen â'r Bil, bydd yr holl argymhellion y bydd y Pwyllgor yn eu gwneud yn yr adroddiad y bydd yn ei gyhoeddi maes o law yn cael eu hystyried yn ofalus.

Cyd-destun

- 5) Yn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Ionawr 2013, cododd y Pwyllgor fater penodol ynghylch a yw adran 7(3)(b) o'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn mynd yn groes i Erthygl 1 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn arbennig, gofynnodd am nodyn am y mater hwn gan gynghorwyr cyfreithiol yr Aelod sy'n Gyfrifol. Ymateb i gais y Pwyllgor yw'r nodyn hwn.
- 6) Mae adran 7(3)(b) o'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn nodi'r materion y mae'n rhaid i awdurdod trwyddedu safleoedd eu hystyried wrth benderfynu rhoi trwydded neu ei gwrthod.

Mae'r materion perthnasol yn cynnwys:

- 7) *“(b) bod deiliad y drwydded yn berson addas a phriodol i fod yn berchennog ar safle rheoleiddiedig”.*
- 8) Mae adran 9 o'r Bil yn nodi'r meini prawf y bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw iddynt wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn “berson addas a phriodol”. Fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i berchennog y safle a rheolwr y safle fodloni'r prawf ynghylch bod yn berson addas a phriodol.
- 9) Mae'r prawf hwn wedi'i seilio ar y prawf sy'n gymwys i ddeiliaid trwyddedau a rheolwyr Tai Amlfeddiannaeth fel y'i nodir yn adran 66 o *Ddeddf Tai 2004*. Fodd bynnag, mae'n ehangach, gan y bydd hefyd yn ystyried gwahaniaethu ar sail unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir o dan adran 4 o *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* (yn hytrach na'r rhestr gulach yn *Neddf 2004*), hynny yw, gwahaniaethu ar sail: oed; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; a chyfeiriadedd rhywiol.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

- 10) Fel y nodir uchod, yr hawl berthnasol yw Erthygl 1 o Brotocol 1 y Confensiwn, sy'n datgan:

“Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.

The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a state to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.”

- 11) Felly, mae Erthygl 1 o Brotocol 1 yn diogelu dinasyddion rhag:

- a) cael eu hamddifadu o'u heiddo – oni bai bod hynny'n gyfreithlon, ac er budd y cyhoedd ac yn ddarostyngedig i egwyddorion a dderbynnir yn rhyngwladol (fel yr egwyddor y dylid fel arfer digolledu unigolion pan fo'r Wladwriaeth yn atafaelu eu heiddo);

- b) rheolaethau ar ddefnyddio eiddo nad ydynt er budd cyffredinol (ac, unwaith eto, yn gyfreithlon) – hynny yw, sy'n ormesol neu'n fypwyol.
- 12) Gall cwmnïau, yn ogystal ag unigolion, ddibynnu ar Erthygl 1 o Brotocol 1.
- 13) Rhaid pwysleisio bod cyfraith achosion Llys Hawliau Dynol Ewrop yn rhoi disgresiwn eang i'r Wladwriaeth weithredu polisïau cymdeithasol ac economaidd sy'n peri i'r defnydd o eiddo gael ei reoli.
- 14) Mae'r cysyniad o "eiddo" neu "feddiannau" yn Erthygl 1 wedi'i ddiffinio'n eang iawn gan Llys Hawliau Dynol Ewrop, ac nid yw'n ddiffiniad sefydlog. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi barnu ei fod yn cynnwys eiddo anniriaethol y gellid ei ystyried yn debyg i'r hawl i redeg safle cartrefi symudol. Yn benodol, barnwyd bod yr Erthygl yn cynnwys hawl landlord i rent, y buddiannau economaidd sy'n gysylltiedig â rhedeg busnes, a'r hawl i ymgymryd â phroffesiwn.
- 15) Gan nad yw cwmpas Erthygl 1 o Brotocol 1 yn sefydlog, mae'n amhosibl cyngori yn bendant fod yr hawl i fod yn berchen ar safle cartrefi symudol, a'i redeg, y tu allan i gwmpas yr Erthygl, gan nad oes cyfraith achosion glir yn bodoli. Felly, mae'r Aelod sy'n Gyfrifol yn bwrw ymlaen â'r Bil ar y sail bod yr Erthygl yn gymwys i'r agwedd hon ar y Bil. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod adran 7(3)(b) neu adran 9 o'r Bil yn mynd yn groes i'r Erthygl. Bydd hyn yn cael ei drafod yn yr adran nesaf.

A yw adrannau 7(3)(b) a/neu 9 o'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn mynd yn groes i Erthygl 1 o Brotocol 1?

- 16) Ni fydd rheoli'r defnydd o eiddo yn mynd yn groes i Erthygl 1 o Brotocol 1 os yw:
- (a) yn gyfreithlon (golyga hynny yn gyfreithlon yn ôl cyfraith Cymru, ac yn gyfreithlon hefyd o ran cydymffurfio â rheolaeth y gyfraith – felly, rhaid i'r ddeddfwriaeth dan sylw fod yn glir, rhaid iddi fod ar gael i'r cyhoedd, ac, fel arfer, rhaid iddi beidio â chael effaith ôl-weithredol);
- (b) yn ceisio cyflawni nod cyfiawn sydd er budd cyffredinol;
- (c) yn gymesur â'r nod hwn (hynny yw, ei fod yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng diogelu hawl unigolyn i eiddo a'r gofyniad o ran y budd cyffredinol). Ni fydd cydbwysedd teg yn cael ei sicrhau pan fo perchennog eiddo yn cael ei orfodi i ysgwyddo baich unigol a gormodol).

17) Daw'r meini prawf hyn yn rhannol o eiriad yr Erthygl ei hun, a nodir uchod, ac yn rhannol o gyfres hir o achosion cyfreithiol yn Llys Hawliau Dynol Ewrop.

18) Mewn un achos blaenllaw, daeth Llys Hawliau Dynol Ewrop i'r casgliad na cheir achos o amddifadu perchennog o eiddo os yw'r perchennog yn parhau i allu defnyddio, gosod neu werthu'r eiddo hwnnw. Os yw'r perchennog wedi ei amddifadu o ran o'i h/incwm o'u heiddo, roedd hynny'n rheolaeth ar ddefnyddio'r eiddo, ac nid yn achos o amddifadu. Felly, byddai rheoli defnydd yn gydnaws â'r Confensiwn pe bai'n cael ei weithredu yn gyfreithlon, pe bai er y budd cyffredinol, a phe bai'n gymesur â'r budd cyffredinol a geisir.

19) Mae dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn yr achos hwn yn berthnasol iawn i destun y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru). Dywedodd y Llys, er mwyn gweithredu polisiau cymdeithasol ac economaidd, ac yn enwedig ym maes tai, bod yn rhaid i'r ddeddfwrfa gael disgresiwn eang - i benderfynu bod problem sy'n destun pryder i'r cyhoedd ac sy'n cyfiawnhau mesurau rheoli, ac i ddewis y rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r mesurau rheoli hyn.

20) Aeth y Llys yn ei flaen i ystyried a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth o ystyried y meini prawf a nodir uchod – a oeddent yn gyfreithlon, a oeddent yn gweithredu er budd cyffredinol, ac a oeddent yn gymesur. Yr hyn sy'n bwysig i waith y Pwyllgor wrth ystyried y Bil presennol yw'r ffaith bod y Llys wedi penderfynu bod y ddeddfwriaeth yn yr achos hwnnw yn gydnaws ag Erthygl 1 o Brotocol 1. Daeth i'r casgliad a ganlyn: er bod y rheolaeth ar yr eiddo dan sylw (sef lleihau rhent) yn sylweddol, nid oedd hynny'n golygu ei fod yn faich anghymesur, ac na allai'r ddeddfwrfa benderfynu'n rhesymol ei weithredu. Mae hyn o ddiddordeb arbennig oherwydd bod y rheolaeth a osodwyd yn yr achos hwn wedi newid rhenti cytundebol – hynny yw, roedd yn effeithio ar gyfundrefn gyfreithiol a oedd yn bodoli eisoes.

21) O gymhwyso meini prawf Llys Hawliau Dynol Ewrop at adrannau 7(3)(b) a 9 o'r Bil, mae'r Aelod sy'n Gyfrifol o'r farn nad ydynt yn mynd yn groes i'r Confensiwn. Y rheswm dros gyflwyno'r prawf ynghylch bod yn berson addas a phriodol yw diogelu trigolion safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru rhag cael eu trin mewn modd annerbynniol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mwy o fanylion am y problemau y mae'r Bil, a'r prawf yn benodol, yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Ym marn yr Aelod, mae'n glir bod hwn yn nod cyfiawn a'i fod er budd cyffredinol, fel y'i dehonglir yn y gyfraith achosion berthnasol. Bydd y prawf ynghylch bod yn berson addas a phriodol yn cael ei gosod gan gyfraith glir, sydd ar gael i'r cyhoedd – sef y Bil ei hun. Ac mae'r prawf ynghylch bod yn berson addas a phriodol yn ddull cymesur o ddiogelu trigolion cartrefi symudol: hynny yw, nid yw'n cyfyngu'n ormodol, ac nid yw'n gosod baich unigol neu ormodol ar berchnogion safleoedd o'u cymharu â chategoriâu eraill o bobl. Caiff hyn ei brofi gan y ffaith bod prawf cywerth yn orfodol i ddeiliaid trwyddedau ar gyfer tai amlfeddiannaeth.

Casgliad

22) Ym marn yr Aelod sy'n Gyfrifol, mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn gydnaws ag Erthygl 1 o Brotocol 1 y Confensiwn.

23) Fodd bynnag, mae'r Bil yn destun trafodaethau ac ystyriaeth barhaus ynghylch y materion perthnasol rhwng yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 neu Gyfnod 3 ym mhroses ddeddfu y Cynulliad. Bydd copi o'r nodyn hwn yn cael ei ddarparu i gynghorwyr cyfreithiol y Gweinidog, ond oherwydd yr amser sydd ar gael nid oedd modd trafod cynnwys y nodyn cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

24) Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol wedi nodi eisoes mai ei fwriad yw gosod gwelliant a fyddai'n golygu na fyddai'r prawf ynghylch bod yn berson addas a phriodol yn gymwys i berchennog y safle; ni fyddai ond yn gymwys i'r rheolwr. Er bod yr Aelod sy'n Gyfrifol o'r farn bod y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn gydnaws â'r Confensiwn, mae'n cydnabod y byddai gwelliant o'r fath yn rhoi sicrwydd pellach o gymesuredd y prawf newydd ynghylch bod yn berson addas a phriodol.

25) Wrth ystyried unrhyw welliannau i'r Bil yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw newidiadau i adran 7(3)(b), bydd materion yng nghyswllt Erthygl 1 o Brotocol 1 yn cael eu hystyried yn ofalus.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Ionawr 2013

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/HL/0040/13

Ann Jones AM
Chair
Communities, Equality and Local
Government Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

23rd January 2012

Dear Ann,

Thank you for your letter dated 16 January 2013. I am responding to your request for further information on the suggestion I made at the Constitutional and Legislative Affairs Committee on 14 January 2013 that the Welsh Government proposes to table amendments to the Regulated Mobile Home Sites Bill (Wales).

First, let me emphasise that I remain fully supportive of the key features of the Bill. Any amendments tabled by the Welsh Government will be aimed at making the new regime simpler and more effective in operation, which I know will be important to Members of the Committee.

Since I appeared before the Communities, Equality and Local Government Committee in December, my officials have considered further how the Bill would work in practice, and listened to the evidence taken by the Committee. As a consequence I have concluded that, as currently drafted, the Bill would introduce an extra tier of licensing. This could make the licensing arrangements more complicated, overly bureaucratic and possibly confusing. Our intention is, therefore, to table amendments. The amendments we are considering would preserve the features of the existing, single tier licensing system as currently set out in the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 but would create new provisions which would sit alongside the current arrangements. It is possible that we may also need to make similar changes to the other legislation governing park home sites including, amongst others, the Mobile Homes Act 1983.

My officials met recently with Peter Black to discuss, in broad terms, the amendments we propose. He agreed that the broad approach is acceptable. We are now working with our lawyers to find the most appropriate mechanisms for delivering these changes to existing legislation and to ensure that any changes we make do not have any unintended consequences. At the present time, we are unable to provide specific details on the precise changes that will be required but we have agreed to discuss these in great detail with Peter when they are finalised. In the meantime, I can confirm that it remains our intention to

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.huw.lewis@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

ensure that the Bill will include a "fit and proper person test" for site managers, collaborative working arrangements for local authorities, and further, the introduction of time limited licences will be considered. We will also include a requirement for Management Regulations setting out how sites should be managed and enforcement provisions in order to allow local authorities to act where sites are not being properly managed etc. In fact, I can envisage a situation where the vast majority of the existing Bill will be accommodated in government amendments wherever possible, the only difference being the Welsh Government's proposals will build on the existing licensing system.

I should also make it clear that whilst the Mobile Homes Bill is currently proceeding through Parliament, these Bills are entirely separate. There is no suggestion the measures in the Regulated Mobile Homes Sites (Wales) Bill will be made on a joint England and Wales basis. Whilst there are benefits in ensuring that legislation covering mobile homes sites share similarities, the provisions in this Bill only apply in relation to Wales. I know that Peter Black has already raised concerns about this issue with my officials.

I am copying this reply to Peter Black.

Yours sincerely,



Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage